

Cynllun Iaith Gymraeg

NYAS Cymru

Cyflwyniad

Mae NYAS Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn:

1. Sicrhau na fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Galluogi pobl yng Nghymru i allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Dyma yw Datganiad o Ddiben NYAS Cymru:

“Byddwn yn gwranddo ar yr hyn y mae plant/pobl ifanc ei eisiau, yn poeni am yr hyn maen nhw'n ei ddweud ac yn eu grymuso i leisio'u barn. Byddwn yn sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu mynegi a'u rhoi ar waith i wella eu sefyllfa a'u helpu i adeiladu gwell dyfodol. Ni fyddwn byth yn stopio yn ein hymdrechion i ddylanwadu, lobio ac ymgyrchu i sicrhau newidiadau cadarnhaol a sicrhau bod hawliau plant/pobl ifanc yn cael eu cynnal.”

Mae polisi gwerthoedd craidd a chydaddoldeb NYAS yn ategu gweithrediad ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod hawliau pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gwarchod. Mae NYAS yn darparu gwasanaethau dan gontract i awdurdodau lleol yng Nghymru. Y Gymraeg yw iaith gyntaf nifer o'n budd-ddeiliaid allweddol, felly mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu ac yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg i gefnogi ein gwerthoedd craidd a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Rydym hefyd yn cefnogi'r Fframwaith Strategol “Mwy na Geiriau” ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a'r Fframwaith dilynol sy'n hyrwyddo “cynnig gweithredol” gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- RISCA - Trwy gydymffurfio â Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Eiriolaeth Statudol a Deddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, bydd NYAS Cymru yn cwrdd â'r rheoliadau trwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar eu hawliau i gael mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cefnogi Cymraeg 2050; gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

1. Datganiad o Fwriad

Mae NYAS wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni ei waith yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at weithredu ein Cynllun i:

- Alluogi unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith
- Sicrhau nad ydym yn gwadu'r hawl i unigolion ddefnyddio eu dewis iaith gan y gallai hyn roi budd-ddeiliaid dan anfantais.

Mae'r Cynllun hwn yn esbonio sut y bydd NYAS yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol. Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu'r Cynllun lle bo hynny'n berthnasol. Os na allwn ddarparu'r holl agweddau gofynnol ar y gwasanaeth, byddwn yn gweithio tuag at gyflawni hyn ar gyfer y dyfodol. Bydd NYAS yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy ei weithgareddau a'i wasanaethau. Mae NYAS yn cydnabod bod gan unigolion hawl i fyw eu bywydau yn eu dewis iaith a bydd NYAS yn eu cefnogi i wneud hyn.

2. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

Polisiau a Gweithdrefnau Newydd

Wrth gynllunio polisiau a mentrau newydd sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bydd NYAS yn sicrhau bod pob datblygiad yn cydymffurfio â'r ymrwymadau a wneir yn y Cynllun hwn. Bydd NYAS yn asesu anghenion iaith y gynulleidfa darged er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf effeithiol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Byddwn yn sicrhau bod holl adrannau NYAS yng Nghymru, neu mewn mannau eraill, yn ymwybodol o ofynion y Cynllun.

Ni fydd y Cynllun iaith Gymraeg hwn yn cael ei newid heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg gan fod hwn yn ofyniad a bennir gan y Comisiynydd er mwyn gallu cymeradwyo pob Cynllun sy'n weithredol.

Cyflwyno Gwasanaethau

Nod NYAS yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Bydd gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys digon o staff/gwirfoddolwyr i ateb y galw a gofynion defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Yn unol â'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r Cynllun hwn, byddwn yn sicrhau y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ledled Cymru. Byddwn yn gwneud hyn trwy weithredu a monitro ein cynllun gweithredu blynyddol.

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys is-adran ar sut y byddwn yn gweithio gyda Phrif Swyddfa NYAS, Adnoddau Dynol a'r Adran Gyfathrebu ac unrhyw adrannau eraill sy'n dylanwadu ar y gwasanaethau yng Nghymru.

Fel y nodir yn yr amserlenni, bydd NYAS yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg trwy:

- Sicrhau bod yr holl staff/gwirfoddolwyr yn gwybod sut i atgyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg trwy ein llinell gymorth.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gwybod pa staff/gwirfoddolwyr NYAS yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg trwy ddefnyddio bathodynau a phosteri Iaith Gwaith.
- Hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog yn ein swyddfeydd yng Nghymru. Mae adnoddau ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo gyda hyn.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff/gwirfoddolwyr i hwyluso gweithrediad y Cynllun. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn gallu darparu sesiynau hyfforddi ar godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gellir derbyn arweiniad gan Estyn Llaw ar ddatblygu dwyieithrwydd yn y sector gwirfoddol.
 - Dod o hyd i wasanaethau cyfieithu dibynadwy o safon uchel i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy. Mae'r Comisiynydd yn argymhell defnyddio cyfieithwyr proffesiynol. Bydd unrhyw newidiadau i gyhoeddusrwydd, brandio neu wybodaeth NYAS yn cael eu prawfddarllen gan gyfieithydd cymeradwy.

3. **Cyfathrebu â Budd-ddeiliaid sy'n Siarad Cymraeg**

NYAS welcomes correspondence in Welsh and in English. The following will be implemented:

Llythyrau

1. Bydd pob llythyr a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg. Byddwn yn sicrhau bod pob gohebiaeth yn Gymraeg yn cael sylw o fewn yr un terfyn amser â gohebiaeth yn Saesneg. Bydd llythyrau safonol yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd ac e-byst NYAS yn cynnwys datganiad dwyieithog safonol yn nodi bod croeso i ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Lle nad yw dewis unigolyn yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd gohebiaeth ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Defnyddio'r Ffôn

2. Bydd croeso i fudd-ddeiliaid gael sgysiau ffôn gyda ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd NYAS yn rhedeg llinell gymorth a bydd gweithredwr sy'n siarad Cymraeg ar gael pan fo'n

ymarferol gyda'r nod o sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael am o leiaf wyth awr y dydd. Y dyddiau hyn fydd dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Rhoddir canllawiau i staff ar y camau i'w cymryd wrth ateb y ffôn. Bydd pob galwad allanol yn cael ei hateb gyda chyfarfodiad dwyieithog safonol yng Nghymru a thrwy ein llinell atgyfeirio Gymreig. Sef "Bore da, good morning, NYAS Cymru" neu "Prynhawn da, good afternoon, NYAS Cymru.

Cyswllt Wyneb yn Wyneb

3. ae NYAS wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y rhai sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb ag aelod o staff/gwirfoddolwr sy'n siarad Cymru yn gallu gwneud hynny. Byddwn yn annog ac yn hyfforddi staff/gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymru i wneud y gorau o'u sgiliau er mwyn cynnig gwasanaeth mor llawn â phosib.

4. Os na all aelod o staff ddarparu gwasanaeth dwyieithog, byddant yn esbonio'r sefyllfa i'r unigolyn ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan aelod arall o staff/gwirfoddolwr. Os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gall yr unigolyn ddewis bod siaradwr Cymraeg yn eu ffonio yn ôl, cyflwyno eu cais yn ysgrifenedig neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Bydd NYAS yn darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg a bydd hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan Reolwr Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredol Cymru.

Cyfarfodydd a Chynadleddau Cyhoeddus

5. Bydd hysbysiadau o bob cyfarfod a chynhadledd gyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys datganiad yn nodi y bydd hawl y rhai sy'n mynychu i siarad Cymraeg neu Saesneg yn cael ei pharchu. Lle bo modd, bydd arddangosfeydd a chyflwyniadau yn ddwyieithog a bydd NYAS yn annog pawb i ddilyn yr egwyddor o gydraddoldeb a chynhwysiant.

6. Byddwn yn mesur yr angen am gyfleusterau cyfieithu ar yr un pryd trwy ofyn i gynrychiolwyr nodi eu dewis iaith ar y ffurflen gofrestru. Os yw o leiaf 20% o'r cynrychiolwyr yn nodi eu bod am gyfathrebu yn Gymraeg, byddwn yn trefnu cyfieithu ar yr un pryd. Os nad oes adnoddau ar gael i drefnu cyfieithydd, bydd aelodau staff/gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn cyfieithu unrhyw gwestiynau. Bydd bathodynau sy'n dynodi siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwisgo i ddangos pa aelodau staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Byddwn yn annog cynrychiolwyr i gyfathrebu yn Gymraeg trwy groesawu unrhyw gyfraniad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Byddwn yn eu hysbysu bod cyfieithu ar gael ac yn anelu at gadeirio a chynnwys siaradwyr gwadd sy'n gallu cyfathrebu trwy'r Gymraeg.

4. Delwedd Gorfforaethol

Bydd hunaniaeth gorfforaethol NYAS Cymru yn gwbl ddwyieithog gan gynnwys enw'r sefydliad, ei gyfeiriad a'i logo a bydd yn weladwy ar bapur pennawd, papur ffacs, cardiau busnes, cyhoeddiadau ac arwyddion adeiladau ar gyfer ei holl waith yng Nghymru.

Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Wrth ailosod arwyddion, mae NYAS wedi ymrwymo i ddarparu arwyddion cwbl ddwyieithog a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion mewnol ac allanol mewn swyddfeydd. Bydd yr arwyddion yn dilyn yr egwyddor o gydraddoldeb, gyda logo Cymru yn ymddangos uwchben neu o flaen y Saesneg yng Nghymru.

5. Cyhoeddiadau

Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus printiedig megis posteri, ffurflenni, llawlyfrau, adroddiadau blynyddol a datganiadau, yn ddwyieithog h.y. gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen, ac mewn arddull addas ar gyfer y ddogfen e.e. ochr yn ochr ar gyfer posteri a chefn wrth gefn ar gyfer dogfennau mwy. Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfennau mewn fformat dwyieithog, bydd NYAS yn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.

Pan godir tâl am ddogfen mewn fformat dwyieithog, ni fydd y pris yn uwch na fersiwn un iaith y ddogfen honno ac ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn uwch na chost y fersiwn Saesneg. Rhoddir canllawiau ysgrifenedig i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog.

Byddwn yn ystyried sut i wneud y defnydd gorau o gymorth gwirfoddol wrth baratoi cyhoeddiadau dwyieithog. Ar yr un pryd byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o safon uchel ac yn y cywair cywir ac yn ymwybodol o'r gynulleidfa darged.

6. Datganiadau i'r Wasg

Lle bo hynny'n briodol, bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Cynhelir cyfweiliadau yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Felly penodir llefarydd sy'n medru'r Gymraeg os oes angen.

7. Y Wefan a Thechnoleg Gwybodaeth

Gall aelodau'r cyhoedd gyrchu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg trwy wefan NYAS. Bydd y wefan yn cynnig dewis iaith clir ar bob tudalen lle mae cynnwys ar gael yn y ddwy iaith. Byddwn yn gweithio tuag at gynnwys unrhyw wybodaeth newydd ar y wefan yn ddwyieithog. Bydd fersiynau Cymraeg o dudalennau sydd eisoes ar gael yn Saesneg yn cael

eu datblygu dros amser, gan flaenoriaethu tudalennau a ddefnyddir yn aml a chynnwys statig.

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sydd ar gael ar y wefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Fforymau Trafod a Rhwydweithio Cymdeithasol

Mae NYAS yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cyfartal i'r ddwy gymuned ieithyddol ar fforymau trafod a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu pob neges gorfforaethol a gyhoeddir gan NYAS ar ei safleoedd rhwydwaith cymdeithasol yn ddwyieithog.

Technoleg Gwybodaeth a Phersonél

Bydd pob llofnod e-bost staff yng Nghymru yn ddwyieithog a bydd llofnodion yr aelodau staff hynny sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwahodd eraill i ohebu â hwy yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Staffio

Bydd NYAS yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol ym mhob maes gwasanaeth a gomisiynir ac ar gyfer pob gweithgaredd craidd yng Nghymru er mwyn rhoi'r Cynllun hwn ar waith. Bydd rhestr o staff a gwirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei chreu ar sail archwiliad sgiliau iaith. Bydd y rhestr ddiweddaraf yn cael ei chylchredeg yn flynyddol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o gydweithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

Recriwtio

Bydd NYAS yn asesu, yn seiliedig ar yr angen i gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y Cynllun hwn, a yw sgiliau iaith Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd wag - p'un ai ar gyfer staff taledig, contractwyr hunangyflogedig, gwirfoddolwyr neu ymddiriedolwyr.

Pan nodir y Gymraeg fel sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer y swydd wag, bydd y disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn nodi'r rhagofynion ieithyddol penodol sydd eu hangen ar ddeiliad y swydd i gyflawni'r rôl, gan gynnwys manylu ar y sefyllfa/sefyllfaoedd lle bydd angen sgiliau darllen, siarad a/neu ysgrifennu yn Gymraeg ar ddeiliad y swydd.

Yng Nghymru byddwn yn gweithio tuag at hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg. Bydd yr hysbyseb swydd yn nodi'n glir a yw'r Gymraeg yn sgil ddymunol neu hanfodol ar gyfer y swydd.

Gwirfoddolwyr

Mae NYAS yn parchu dewis iaith gwirfoddolwyr ac yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau ieithyddol gwirfoddolwyr wrth wireddu'r Cynllun hwn.

Lle bo hynny'n briodol, bydd NYAS yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog a bydd yn asesu'r angen i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith wrth ystyried pob cyfle gwirfoddol newydd.

Bydd NYAS yn hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli yn ddwyieithog yng Nghymru. Pan ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer swydd wirfoddol, byddwn yn nodi'r sgiliau ieithyddol penodol a'r sefyllfaoedd lle gallai fod angen i wirfoddolwr ddefnyddio sgiliau gwrando, darllen, siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg.

Mae NYAS yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gref ar y Gymraeg fel egwyddor ac fel rhan o lywodraethu da. Wrth recriwtio ymddiriedolwyr, rydym yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg.

Hyfforddiant

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i'r bob aelod o staff, ymddiriedolwr a gwirfoddolwr. Pan nad yw hyfforddiant ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb yn ymarferol neu'n bosibl, defnyddir pecynnau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a DVDs. Bydd pob aelod o staff Cymru yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i roi'r cynllun hwn ar waith. Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn derbyn hyfforddiant ar sut i gyfarch a/neu ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar sut i ynganu geiriau ac enwau Cymraeg. Rhoddir hyfforddiant i staff i'w galluogi i anfon ymholiad at aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg pe bai hyn yn angenrheidiol.

Dysgu Cymraeg

Bydd NYAS yn ymdrechu i annog a chefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg ac yn cefnogi staff sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith. Bydd staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn annog staff eraill sy'n dysgu Cymraeg i siarad Cymraeg yn y gweithle. Bydd NYAS yn talu am hyfforddiant yn Gymraeg ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith, lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Bydd copïau o eiriaduron Cymraeg ar gael yn ein swyddfeydd. Bydd NYAS hefyd yn annog aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod digwyddiadau ac yn darparu brawddegau defnyddiol iddynt eu hymarfer.

Monitro

Bydd Prif Swyddog Gweithredol NYAS Cymru yn monitro gweithrediad y Cynllun yn unol â'r amserlenni amgaeedig ac yn adrodd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chomisiynydd y Gymraeg

yn flynyddol. Bydd NYAS yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.

Cwynion ac Adborth

Bydd cwestiwn ar ein Cynnig Iaith Cymraeg yn cael ei gynnwys yn ein systemau atgyfeirio a'n cofnodion ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dylid anfon cwynion ac awgrymiadau swyddogol at: RHADBOST NYAS.

Ymdrinnir ag unrhyw gwynion a dderbynnir gan NYAS sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn unol â'r gweithdrefnau a'r polisiau cwynion cyfredol.

8. Hysbysebu'r Cynllun a Chodi Ymwybyddiaeth ohono

Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan NYAS. Bydd adran ar weithredu yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys ym mhob arfarniad staff.

Adolygwyd y polisi hwn ym mis Ebrill.